Dogfen Ymgynghori Statudol Plant a Phobl Ifanc

# Adolygiad o Ysgolion Cynradd Cymunedol Saltney





Cynnig i Aildrefnu Addysg Gynradd yn Saltney

Cyfnod Ymgynghori: dydd Mawrth 16 Mehefin 2026 i ddydd Mercher 29 Gorffennaf

# Pwy ydym ni

Cyngor Sir y Fflint sy’n gyfrifol am yr holl ysgolion yn ein hardal.

Rydyn ni’n rhan o dîm sy’n gweithio i’r Cyngor i gefnogi ysgolion.





# Pam rydan ni'n gofyn am eich barn eto?

- Rydan ni wedi siarad â phobl am y cynlluniau yma o'r blaen, ond bu'n rhaid i ni oedi'r broses yn gynharach eleni.
- Roedd hyn oherwydd bod cwestiwn cyfreithiol wedi'i godi oedd angen ei archwilio'n ofalus.
- Tra oedd hyn yn cael ei ystyried, rhedon ni allan o amser i ddilyn y rheolau swyddogol ar gyfer ymgynghori.
- Rŵan mae angen i ni ailgychwyn y broses ymgynghori er mwyn bod:
  - ➢ Popeth yn dilyn y rheolau diweddaraf
  - ➢ Pawb yn cael cyfle teg i leisio eu barn
- Rydan ni'n dal i feddwl y gallai'r cynlluniau yma fod yn ffordd dda o wella ysgolion, ac rydan ni eisiau clywed beth ydych chi'n ei feddwl cyn gwneud unrhyw benderfyniadau.





# Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

'Mae gan blant yr hawl i ddweud beth maen nhw'n feddwl ddylai ddigwydd, pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w barn gael ei hystyried'.

Erthygl 12: Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)
I gael gwybodaeth am y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc ewch i:
http://www.youngwales.wales/images/ParticipationStandards_Poster_9.pdf





# Ein Nod

- Rhoi'r cyfle gorau i bob plentyn ddysgu mewn ysgolion ardderchog yn ein hardal.
- Darparu adeiladau ysgol diogel a chadarn.
- Gwneud yn siŵr bod arian ar gyfer plant ac ysgolion yn ein hardal yn cael ei wario'n deg.
- Rhoi cyfle i bawb leisio eu barn a gwrando ar farn pawb am benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.





# Yr Ysgolion Cynradd

Dwy Ysgol Gynradd

- Ysgol Gynradd Gymunedol Saltney Ferry
- Ysgol Gynradd Gymunedol Goffa Saltney Wood





# Newidiadau

Nid yw bob amser yn bosib' i bob ysgol aros fel maen nhw ac ambell waith mae hyn yn golygu bod angen i'r Cyngor wneud rhai newidiadau pwysig.

Gall newidiadau helpu i roi'r cyfle gorau i bawb ddysgu, yn yr ysgol orau bosib'.





# Beth mae hyn yn ei olygu

Rydyn ni wedi edrych ar lawer o bethau sy'n gallu helpu ysgolion i roi'r addysg orau bosib' i blant.

Pethau fel:

- Pa mor dda yw'r adeilad
- Pa mor hawdd mae'r adeilad yn ei gwneud i ddysgu ynddo
- Nifer y plant sydd yma
- Faint o blant ydyn ni'n ei feddwl fydd yn dod yma yn y dyfodol





# Beth waethom ni ei weld

- Mae rhai adeiladau ysgol yn hen ac angen llawer o waith i'w trwsio.
- Mai rhai dosbarthiadau'n rhy fach neu ddim y siâp gorau i ddysgu.
- Mae'n costio llawer i redeg rhai ysgolion a'u cadw'n gynnes.
- 'Does dim llawer o blant mewn rhai ysgolion, sy'n gallu ei gwneud hi'n fwy anodd eu rhedeg gan na fydd cymaint o glybiau, gweithgareddau neu gyfleoedd dysgu efallai.





# Beth rydyn ni'n ei feddwl

Mae cynllun i gau Ysgol Saltney Ferry ac Ysgol Goffa Saltney Wood yn y dyfodol ac agor un ysgol newydd sbon, lle gall pawb ddysgu, chwarae a datblygu gyda'i gilydd mewn un lle hapus. Bydd yr ysgol newydd:

- Yn dod â'r holl blant ac athrawon/staff at ei gilydd mewn un lle hapus
- Yn adeilad newydd, hyfryd sy'n ddiogel ac yn lân
- Yn llawn dosbarthiadau sydd y maint perffaith i ddysgu a chwarae
- Yn helpu'r blaned trwy ddefnyddio llai o ynni
- Yn arbed arian er mwyn i ni allu gwario mwy ar hwyl a dysgu
- Yn helpu athrawon i ddysgu pethau newydd hefyd
- Rhoi cyfle i ti wneud hyd yn oed mwy o ffrindiau!





# Ble i adeiladu ysgol newydd

Mae angen llawer o le i adeiladu ysgol newydd i blant cynradd.

Mae’r tir wrth Ysgol Saltney Ferry yn ardal lle bydd llifogydd yn y dyfodol, felly mae’n anodd iawn adeiladu yno.

Dydi hon ddim yn broblem wrth Ysgol Goffa Saltney Wood, lle mae tir ar gael i adeiladu arno tra mae’r ysgol bresennol ar agor.

’Does dim tir arall ar gael i adeiladu arno yn Saltney.

Dyna pam ein bod ni’n meddwl mai Ysgol Saltney Wood yw’r lle gorau.





# Cau ysgolion

Rydyn ni'n gwybod bod sôn am gau ysgol yn gallu gwneud i bobl boeni.

- Mae'n gallu bod yn newid mawr i'r plant sy'n mynd iddi.
- Mae hefyd yn gallu bod yn newid mawr i athrawon a staff.
- Rydyn ni'n gwybod ei fod yn gallu effeithio'r ardal gyfan o amgylch yr ysgol hefyd. Dyna pam ein bod ni'n meddwl yn ofalus beth sydd orau i bawb.





# Effaith ar Ddisgyblion

Plant sy'n mynd i ysgol sy'n cau:

- Bydd yn rhaid iddynt deithio i ysgol arall.
- Bydd yn rhaid i rai disgyblion deithio'n bellach i fynd i'r ysgol newydd, a disgyblion eraill yn teithio llai.
- Bydd yn cymryd mwy o amser i rai disgyblion gyrraedd yr ysgol newydd, a llai i eraill.
- Byddant yn cael gwisg ysgol newydd.
- Bydd gan yr ysgol enw newydd.





# Anodd ond Cywir

Er ein bod yn gwybod mor anodd all hyn fod i bawb, rydyn ni’n dal i gredu mai dyma’r peth cywir i’w wneud.

Rydyn ni’n credu ei bod yn iawn cau Ysgol Saltney Ferry ac Ysgol Goffa Saltney Wood oherwydd ei fod yn golygu:

- Y bydd y nifer cywir o leoedd i nifer y plant oed cynradd sydd yn Saltney.
- Na fydd angen hen adeiladau sy’n ddrud i’w rhedeg a’u cadw.
- Y bydd lle gwell i’r disgyblion ddysgu.





# Y Cynnig

Beth rydyn ni'n ei feddwl ddylai ddigwydd yw:

- Cau Ysgol Saltney Ferry ac Ysgol Goffa Saltney Wood.
- Cadw'r ddwy ysgol ar eu safleoedd presennol fel ysgol ar y cyd i ddechrau.
- Agor ysgol newydd i'r holl ddisgyblion yn Ysgol Saltney Ferry ac Ysgol Goffa Saltney Wood ar dir wrth Ysgol Goffa Saltney Wood.





# Beth sydd angen digwydd

- Mae’n rhaid i ni ofyn barn llawer o bobl.
- Rhaid i ni gasglu atebion pawb at ei gilydd.
- Bydd Cabinet y Cyngor, sy’n gwneud penderfyniadau pwysig, yn penderfynu a ddylem ni barhau.
- Os felly, byddwn yn gofyn i bobl ydyn nhw’n gwrthwynebu i’r cynnig (meddwl ei fod yn syniad gwael).
- Bydd Cabinet y Cyngor yn penderfynu a ddylem ni barhau.
- Os felly, byddwn yn gwneud iddo ddigwydd.







Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council

# Pryd allai hyn ddigwydd?

- **Dydd Mercher 29 Gorffennaf 2026** – Rhaid cael barn pawb erbyn hyn
- **Medi 2026** – Y Cabinet yn ystyried barn pawb
- **Hydref 2026** – Gall pobl sy’n meddwl ei fod yn syniad gwael ddweud hynny wrthym ni.
- **Ionawr 2027** – Y Cabinet yn gwneud y penderfyniad terfynol.





# Pryd gallai ysgolion gau ac agor

- **31 Awst 2027 – Cau Ysgol Saltney Ferry ac Ysgol Goffa Saltney Wood.**
- **1 Medi 2027– Ysgol Gynradd newydd i Saltney yn agor ar safleoedd presennol Ysgol Saltney Ferry ac Ysgol Goffa Saltney Wood.**
- **1 Medi 2030 – Adeilad Ysgol Gynradd newydd yn agor ar dir wrth Ysgol Goffa Saltney Wood.**





# Mwy o wybodaeth

Os wyt ti eisiau gwybod mwy, mae gwybodaeth ar gael ar y we mewn dogfen sy'n llawer mwy.
Dos i:

https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Proposal-To-Reorganise-Saltney-Ferry-C.P-And-Saltney-Wood-Memorial-C.P.aspx





# Mae dy farn di’n bwysig

Rydyn ni wedi sôn am ein syniad ni, wedi dweud sut alli di gael mwy o wybodaeth ac wedi ateb unrhyw gwestiynau, ac rŵan mae hi’n bwysig iawn i ti ddweud beth rwyt ti’n ei feddwl.

Mae dy farn di'n bwysig.

Yn y llyfryn yma, mae lle i ti ysgrifennu unrhyw beth rwyt ti eisiau ei ddweud ac unrhyw syniadau sydd gennyt ti.





# Dy ysgol a dy oedran

## I ba ysgol wyt ti'n mynd rŵan a faint yw dy oed di?

Ysgrifenna dy atebion yn y blwch.





# Dy farn

**Wyt ti'n meddwl bod ein syniad yn un da, un gwael, neu ddim yn siŵr?**

Ysgrifenna dy atebion yn y blwch.





# Dy resymau

Pam wyt ti’n meddwl bod y cynnig yn un da, un gwael neu ddim yn siŵr?

Ysgrifenna dy atebion yn y blwch.





# Dy syniadau

**Oes unrhyw beth arall rwyt ti eisiau ei weld yn digwydd yn lle hyn?**

Ysgrifenna dy atebion yn y blwch.





# Dy lais

## Wyt ti eisiau dweud unrhyw beth arall?

Ysgrifenna dy atebion yn y blwch.





# Beth sy’n digwydd nesaf?

Postia dy lyfryn wedi’i lenwi atom erbyn **dydd Mercher 29 Gorffennaf 2026**. Yn anffodus, ni fyddwn yn gallu derbyn unrhyw beth y byddi yn ei anfon atom ar ôl y dyddiad hwnnw.

Cyfeiriad: Tîm Moderneiddio Ysgolion, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewlo, Sir y Fflint, CH5 3TX

Neu mi alli di e-bostio dy sylwadau at:
saltneyconsultations@flintshire.gov.uk

## Wyt ti eisiau dweud unrhyw beth arall?

Ysgrifenna dy atebion yn y blwch.





# Diolch yn fawr!

